Y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol

# Cydraddoldeb Hiliol A Chaffaeliad Mewn Llywodraeth Leol

## Canllaw i awdurdodau a chontractwyr

(gan gynnwys yr holl awdurdodau lleol ym Mhrydain, yr heddlu ac awdurdodau tân yng Nghymru a Lloegr, a byrddau ar y cyd yr Alban)

Mae gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000, a ddiwygiodd Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976, oblygiadau pwysig i awdurdodau lleol. Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol ddiwygiedig, y DdCH, bellach yn gwahardd gwahaniaethu yn eich holl swyddogaethau, gan gynnwys caffaeliad. Mae hefyd yn rhoi dyletswydd gyfreithiol gliriach, fwy uniongyrchol, gadarnhaol i chi i ddileu gwahaniaethu ac i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau hiliol da. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i chi gymryd camau proactif i asesu a oes cyfle cyfartal i bawb: eich staff, y cyhoedd a wasanaethwch, a'r busnesau sy'n gweithio i chi – ac i wneud newidiadau lle nad yw hyn yn bod.

Lle cyflawnir un neu fwy o'ch swyddogaethau gan gyflenwr allanol, rydych yn dal yn gyfrifol am fodloni'r ddyletswydd. Rhaid i gontractwyr eu hunain beidio â gwahaniaethu, ond nid oes ganddynt yr un rhwymedigaeth gyfreithiol i hyrwyddo cyfle cyfartal. Felly rhaid i chi gynnwys ystyriaethau cyfle cyfartal perthnasol i'r broses gaffael i sicrhau bod pob swyddogaeth yn bodloni eich gofynion o ran y DdCH, pwy bynnag sy'n ei chyflawni.

Mae hyrwyddo cydraddoldeb drwy gaffael yn bwysig. Mae gan yr holl grwpiau yn ein cymunedau, beth bynnag yw eu tarddiad ethnig, hawl i ddisgwyl bod arian cyhoeddus yn cael ei wario ar wasanaethau lleol sy'n addas ar gyfer eu hanghenion – a'i fod yn cael ei wario mewn modd sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn cyflwyno nwyddau a gwasanaethau o ansawdd uchel.

Mae'r egwyddorion a'r ddeddf yn glir, ond gall eu rhoi ar waith a chyfrifo'r graddau y gall cyfle cyfartal gael ei hyrwyddo mewn caffaeliad o fewn deddfwriaeth a pholisi ehangach, fod yn her. Mae'r daflen hon yn rhoi crynodeb o'r prif gamau sy'n angenrheidiol i gynnwys cyfle cyfartal o fewn caffael, a'r canlyniadau allweddol y dylech geisio eu sicrhau. Mae'r CRE hefyd wedi cyhoeddi canllaw manwl, **Cydraddoldeb Hiliol a Chaffaeliad mewn Llywodraeth Leol**, i'ch helpu i fodloni'r ddyletswydd wrth gaffael (gweler y dudalen ôl am fanylion am archebu). Mae canllawiau ychwanegol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus y tu allan i lywodraeth leol ar gael hefyd.

COMMISSION FOR RACIAL EQUALITY

COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL

# Sicrhau cydraddoldeb hiliol mewn caffaeliad

## Canlyniadau allweddol

- Cyflwynir pob contract mewn modd nad yw'n gwahaniaethu, ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer eich staff, y cyhoedd a busnesau.
- Mae'r nwyddau, y gwaith, a'r gwasanaethau a ddarperir gan gontractwyr yn darparu ar gyfer holl anghenion defnyddwyr.
- Nid oes unrhyw wahaniaeth yng nghyfraddau bodlondeb defnyddwyr, na'ch staff, o wahanol grwpiau hiliol.
- Mae contractwyr yn gynrychioliadol o'r boblogaeth leol, neu o'r ardal y tynnir y busnesau ohonynt, mewn perthynas ag amrywiaeth ethnig.
- Mae contractwyr yn gweithio ar sail wirfoddol i hyrwyddo cyfle cyfartal y tu hwnt i rychwant y contract.

## Blociau adeiladu allweddol

- Cynhwyswch ystyriaethau yn ymwneud â chydraddoldeb hiliol yn eich strategaethau a'ch polisïau caffael, a chysylltwch nhw â'ch cynllun cydraddoldeb hiliol.
- Byddwch yn gyson yn eich agwedd at gydraddoldeb hiliol ar draws pob adran, ac yn ystod pob cam o'r broses caffael.
- Rhowch hyfforddiant a chanllawiau i'r holl swyddogion sy'n gyfrifol am elfennau cydraddoldeb hiliol contract, gan gynnwys monitro.
- Ymgynghorwch â defnyddwyr, a defnyddwyr potensial, ynghylch eu gofynion am wasanaethau perthnasol, a dechreuwch drafodaethau gyda chyflenwyr potensial.
- Cymerwch gamau i sicrhau bod yr holl gontractwyr potensial yn cael yr un cyfle, waeth beth yw eu maint neu genedligrwydd eu perchnogaeth – a gwneud eich polisi ar gydraddoldeb hiliol yn glir i bob cwmni sydd â diddordeb.
- Ystyriwch gydraddoldeb hiliol wrth ddiffinio eich gofynion ym mhob cam o broses y contract, sicrhewch eich bod yn monitro ac yn asesu canlyniadau a chynlluniwch ar gyfer gwelliant.
- Anogwch gontractwyr i gytuno i gamau gwirfoddol pellach i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol wedi i'r contract gael ei ddyfarnu.

## Canllawiau arweiniol

- **Perthnasedd**
  Mae unrhyw gontract a allai gael effaith wahanol yn ôl grŵp hiliol yn berthnasol i'ch dyletswydd. Ystyriwch bob elfen o'r contract, nid dim ond y rhai hynny sydd fwyaf amlwg.
- **Cymesuredd**
  Dylai'r camau a gymerwch i sicrhau cydraddoldeb hiliol gysylltu ag effaith debygol, a maint, y contract. Ni allwch anwybyddu contractau llai, ond gall gweithdrefnau symlach fod yn fwy priodol.
- **Atebolrwydd**
  Mae'r corff neu unigolyn sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am eich corff neu fudiad yn atebol yn y pen draw am fodloni'r ddyletswydd. Mae angen llinellau atebolrwydd clir os caiff cyfrifoldeb ei ddirprwyo.
- **Tryloywder**
  Mae hyn yn egwyddor o reolaeth y GE a deddf y DU, ac mae'n elfen allweddol o'r ddyletswydd.
- **Integreiddio o fewn y prif lif**
  Dylai cydraddoldeb hiliol fod yn rhan hanfodol o amcanion corfforaethol, cynllunio a darparu gwasanaeth.
- **Priodoldeb**
  Mae awdurdodau yn amrywio, felly mae angen i argymhellion CRE gael eu haddasu i weithio i chi.
- **Cydymffurfio â'r gyfraith**
  Rhaid i chi fodloni gofynion y DdCH wrth gyflawni gwaith caffael, ond hefyd cydymffurfio â deddfau'r GE a'r DU, a pholisi'r llywodraeth.
- **Asesu risg**
  Po fwyaf perthnasol yw'r contract i'r ddyletswydd, po fwyaf y risg a fydd mewn peidio â gweithredu. Gall rhywfaint o risg gael ei drosglwyddo i gontractwyr, ond mae cyfrifoldeb yn parhau gyda'r awdurdod.

# Rolau a chyfrifoldebau – rhestr wirio

## Aelodau'r awdurdod

Rydych chi yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod eich corff yn cydymffurfio â'r ddyletswydd wrth gyflawni yr holl swyddogaethau perthnasol, gan gynnwys caffael.

- ❑ A yw cynllun cydraddoldeb hiliol eich awdurdod yn ymdrin â chaffael ac yn nodi camau gweithredu penodol?
- ❑ A yw amcanion strategol yr awdurdod ar gyfer caffael yn cynnwys cydraddoldeb hiliol?

> **Enghraifft: Detholiad o Strategaeth Caffael Cyngor Ealing.**
>
> Bydd y cyngor yn sicrhau bod ei bolisïau ac arferion caffael yn cefnogi ei strategaethau corfforaethol drwy:
>
> a) fynnu bod y contractwyr a benodir gennym yn rhannu ac yn helpu i gyflwyno ein nodau o ran cyfle cyfartal;
>
> b) ofalu bod ein prosesau dewis a thendro yn ymdrin yn gadarnhaol â ac yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb;
>
> c) fonitro ein contractau yn llym i weld eu bod yn cydymffurfio;
>
> d) gynnwys amodau a thelerau priodol; a
>
> e) hyfforddi staff mewn materion yn ymwneud â chydraddoldeb ar gyfer caffaeliad.

- ❑ A ydych chi yn derbyn adroddiadau oddi wrth y prif weithredwyr a rheolwyr hŷn ynghylch sut y caiff amcanion strategol yn y maes hwn eu bodloni?
- ❑ A oes arnoch angen i eraill fonitro ac adrodd i chi am berfformiad contractwyr yn ymwneud â chydraddoldeb hiliol?

## Prif swyddogion a swyddogion polisi strategol

Rydych yn debygol o fod â lefel uchel o gyfrifoldeb am fodloni'r ddyletswydd a sicrhau bod yr awdurdod yn gweithredu yn gyfreithiol yn y maes hwn.

- ❑ A ydych yn deall beth sy'n ofynnol gan y Ddeddf Cydraddoldeb Hiliol (DdCH) yn nhermau sut mae eich awdurdod yn prynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau?
- ❑ A ydych chi a staff allweddol eraill wedi eich hyfforddi ynghylch y DdCH?
- ❑ A ydych yn darparu cefnogaeth i eraill sy'n cyflawni gwaith caffael, gan gynnwys yn nhermau cydraddoldeb hiliol?
- ❑ A yw contractwyr sy'n cyflwyno swyddogaethau perthnasol yn bodloni'r ymrwymiadau yn eich cynllun cydraddoldeb hiliol?
- ❑ A oes gan bob adran agwedd gyson at gydraddoldeb hiliol, ac a yw gwybodaeth yn cael ei rhannu?
- ❑ A osodwyd dangosyddion perfformiad corfforaethol ac adrannol ar gyfer caffaeliad a chydraddoldeb hiliol?
- ❑ A ofynnir i chi adrodd i aelodau am berfformiad yn erbyn y targedau hyn?
- ❑ A ydych yn cymryd perchnogaeth am gaffael a gyflawnir gan eraill, ac yn gofyn iddyn nhw adrodd i chi?
- ❑ A ydych yn sicrhau bod cyngor cyfreithiol ar gael i aelodau a staff perthnasol am gydymffurfiad â rheolau'r GE, y DdCH, a deddfwriaeth arall, wrth gyflawni gwaith caffael?

Mae'r ddau gwestiwn cyntaf i aelodau, uchod, hefyd yn berthnasol.

## Swyddogion sy'n ymwneud ag adolygu a gwella gwasanaeth

Bydd angen i chi sicrhau bod gwasanaethau yn bodloni anghenion yr holl ddefnyddwyr, waeth bynnag pwy sy'n eu darparu.

- ❑ A ymgynghorir â defnyddwyr a defnyddwyr potensial ynghylch y ffurf y dylai'r gwasanaethau ei chymryd?
- ❑ A yw busnesau yn rhan o'r trafodaethau cyn tendro am sut y gallai gwasanaethau gael eu cyflwyno?
- ❑ A yw cydraddoldeb hiliol yn cael ei gynnwys o fewn pob adolygiad polisi a dadansoddiad o ddewisiadau?

## Swyddogion caffael a phrynu, swyddogion sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaeth, swyddogion monitro

Mae angen i chi sicrhau yr ystyrir cydraddoldeb hiliol ym mhob cam o'r broses caffael.

- ❑ A ydych yn ystyried holl elfennau cydraddoldeb hiliol potensial contract?

> **Enghraifft:** Roedd contract awdurdod tân i gyhoeddi taflenni am ddiogelwch tân yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr nodi pa ieithoedd (heblaw Cymraeg a Saesneg) oedd y rhai mwyaf priodol i gyrraedd pobl yn ardal yr awdurdod – gan gynnwys cymudwyr, myfyrwyr, twristiaid a theithwyr eraill, yn ogystal â thrigolion parhaol.

- ❑ A ydych yn ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr, ac yn cysylltu gyda swyddogion cydraddoldeb cyn dylunio'r fanyleb?
- ❑ A ydych yn cynnwys gofynion yn ymwneud â dyletswyddau cyffredinol a phenodol eich awdurdod o fewn y fanyleb?
- ❑ A ydych yn ystyried cydraddoldeb hiliol ym mhob cam o'r broses, fel y cyflwynir hynny yn y cylch dros y dudalen?

**Enghraifft (manyleb):** Mae cyngor gwledig yn gosod contract ar gyfer dwy ganolfan gwybodaeth gymunedol symudol yn gwybod bod Sipsiwn lleol yn llai tebygol nag eraill o ddefnyddio gwasanaethau lleol, a bod rhai plant Sipsiwn o dan anfantais pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae'r contract yn nodi y dylai'r contractwr:

- ymgynghori gyda theuluoedd Sipsiwn ynghylch y ffordd orau o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau'r cyngor iddynt;
- addasu gwasanaethau'r canolfannau symudol i fod yn fwy perthnasol a hygyrch i deuluoedd Sipsiwn (er enghraifft, cynllunio teithiau a rhestrau i fod yn addas ar gyfer eu hanghenion): ac
- annog teuluoedd Sipsiwn yn yr ardal i ddefnyddio gwasanaethau'r cyngor, gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer rhieni a phlant bach, dosbarthiadau meithrin ac ysgolion cynradd.

**Enghraifft (detholiad):** Mae gan Gyngor Swydd Derby raddfa o ofynion, yn seiliedig ar fod â mwy o risg lle bo gan y contractwr fwy o gysylltiad gydag aelodau'r cyhoedd, neu lle bo mwy o elfen gwasanaeth yn y contract yn gyffredinol.

- Risg isafol: dim gofynion penodol yn cael eu rhoi ar y cyflenwr, heblaw gofalu ei fod yn ymwybodol o bolisïau ac amcanion y cyngor.
- Risg isel: polisi cyfle cyfartal ysgrifenedig gyda thystiolaeth o weithredu a gweithdrefnau am beidio â chydymffurfio.
- Risg ganolig: polisi ysgrifenedig, rhaglen hyfforddi staff, asesiadau risg, a gweithdrefn cwynion.
- Risg uchel: mae angen yr holl ddogfennaeth uchod, ynghyd â system monitro gynhwysfawr.

- ❑ A ydych chi yn hysbysu cwmnïau aflwyddiannus, yn ystod pob cam, am eu gwendidau, gan gynnwys ar faterion o gydraddoldeb hiliol?
- ❑ A ydych yn monitro cenedligrwydd perchnogaeth sail eich contractwyr, yn nodi rhwystrau ac yn gwneud newidiadau?

**Enghraifft:** Mae cyngor Haringey wedi datblygu rhaglen i helpu busnesau bach a rhai lleiafrifoedd ethnig i gaffael y sgiliau y mae arnynt eu hangen i gystadlu am gontractau. Mae'r awdurdod:

- yn cynnal seminarau hyfforddi i gwmnïau bach a chanolig ar bob agwedd o dendro, gan gynnwys cyfle cyfartal;
- yn cynnig cyfleoedd i fusnesau bychain rwydweithio gyda'r awdurdod ac asiantaethau cyngor busnes; ac
- yn helpu ei brif gontractwyr yn y sector preifat i gynyddu eu hamrediad o gyflenwyr.

### Swyddogion cyfle cyfartal

Dylech wneud yn siwr fod eraill o fewn eich corff yn cael digon o wybodaeth am y DdCH yng nghyd-destun caffael.

- ❑ A yw eich cynllun cydraddoldeb hiliol yn nodi caffael fel swyddogaeth berthnasol?
- ❑ A gyflwynir unrhyw rai o'r swyddogaethau a restrwyd yn eich cynllun cydraddoldeb hiliol, yn gyfan gwbl neu yn rhannol, gan gontractwyr?
- ❑ A yw eraill o fewn eich awdurdod yn ymwybodol o berthnasedd y ddyletswydd i gaffael?
- ❑ Os oes gennych strategaeth caffael, a yw'n cynnwys cydraddoldeb hiliol?
- ❑ A ymgynghorir â chi pan gynllunnir contractau sy'n berthnasol i gydraddoldeb hiliol?
- ❑ Lle bo atebion i'r cwestiynau uchod yn 'na' (heb gynnwys yr ail un), a ydych yn codi'r materion hyn gydag eraill?

# Cydraddoldeb hiliol yn y cylch caffael

- Penderfynu os yw cydraddoldeb hiliol yn ofyniad craidd
- Ymgynghori gyda defnyddwyr a defnyddwyr posib
- Gwerthuso'r ddarpariaethau sy'n bodoli a nodi gwelliannau
- Ymgynghori gyda darparwyr

- Cynnwys holl ofynion cydraddoldeb hiliol
- Cynnwys gofynion ar gyfer cyflawni ymrwymiadau mewn Cynllun Cydraddoldeb Hiliol (CCH)
- Cynnwys cymalau contract an-wahaniaethu
- Cynnwys cymalau perthnasol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol

- Gwirio nad oes hanes o wahaniaethu
- Gwirio gallu i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol mewn
  - gwaith
  - cyflwyniad gwasanaeth

- Rhoi'r holl wybodaeth am yr awdurdod
- Rhoi copi o'r CCH
- Nodi meini prawf i werthuso cydraddoldeb hiliol
- Nodi'r dystiolaeth i'w chyflwyno




- Adolygu llwyddiant neu fethiant mewn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol
- Nodi gwersi ar gyfer contractau yn y dyfodol

- Gwirio bod perfformiad y contractwr yn bodloni gofynion cydraddoldeb hiliol
- Gweithredu'n gyflym i wella perfformiad gwael
- Cynorthwyo gydag anawsterau
- Os bydd perfformiad gwael yn parhau, cymryd camau gorfodaeth

- Cytuno ar gyfrifoldebau awdurdod a chontractwyr
- Egluro gofynion cydraddoldeb hiliol
- Cytuno ar ddulliau monitro

- Cymhwyso meini prawf perthnasol sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol
- Gwerthuso cynnig sydd werth gorau am arian, ac sy'n gallu bodloni'r holl ofynion

© Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, St Dunstan,s House, 201-211 Borough High Street, Llundain SE1 1GZ.
Cyhoeddwyd Gorffennaf 2003. ISBN 1 85442 534 X

COMMISSION FOR RACIAL EQUALITY
COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL

TSO

# Chwe ffordd i archebu cyhoeddiadau CRE

**Ymwelwch** â **www.tso.co.uk/bookshop** a chwiliwch ar-lein am y cyhoeddiadau angenrheidiol yn ôl ISBN neu deitl

**Galwch** **0870 240 3697** (Ffôn testun **0870 240 3701**)

**Ffacsiwch** eich archeb i **0870 240 3698**

**Ebostiwch** eich archeb i **CRE@tso.co.uk**

**Ymwelwch** â'ch siop TSO leol yn Llundain, Caeredin, Caerdydd, Belffast, Birmingham, neu Fanceinion

**Anfonwch** eich archeb at: **CRE Customer Services**
**PO Box 29**
**NORWICH NR3 1GN**

A fyddech cystal â gwneud sieciau yn daladwy i **The Stationery Office Ltd**

## FFURFLEN ARCHEBU

| TEITL | ISBN | PRIS (£) | NIFER | DYLEDUS(£) |
|---|---|---|---|---|
| Cydraddoldeb Hiliol a Chaffael mewn Llywodraeth Leol: Canllawiau i awdurdodau a chontractwyr * | 1 85442 524 2 | **15.00** | | |
| Cydraddoldeb Hiliol a Chaffael Cyhoeddus: Canllawiau i awdurdodau cyhoeddus a chontractwyr * | 1 85442 525 0 | **15.00** | | |
| Cod Ymarfer Statudol ar y Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol ** | 1 85442 430 0 | **10.00** | | |
| Statutory Code of Practice on the Duty to Promote Race Equality in Scotland | 1 85442 483 1 | **10.00** | | |
| Canllawiau i Awdurdodau Cyhoeddus (anstatudol) ** | 1 85442 431 9 | **7.00** | | |
| A Guide for Public Authorities in Scotland (anstatudol) | 1 85442 484 X | **7.00** | | |
| Canllawiau i Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch (anstatudol)** | 1 85442 432 7 | **5.00** | | |
| A Guide for Further and Higher Education Institutions in Scotland (anstatudol) | 1 85442 485 8 | **5.00** | | |
| Canllawiau i Ysgolion (anstatudol)** | 1 85442 433 5 | **5.00** | | |
| A Guide for Education Authorities and Schools in Scotland (anstatudol) | 1 85442 486 6 | **5.00** | | |
| Monitro Ethnig: Canllawiau i awdurdodau cyhoeddus** | 1 85442 434 3 | **10.00** | | |
| Ethnic Monitoring: A guide for public authorities in Scotland | 1 85442 487 4 | **10.00** | | |
| Pecyn Cod Ymarfer (y pum teitl)** | 1 85442 435 1 | **35.00** | | |
| Scottish Code of Practice Pack (yn cynnwys y pum teitl uchod i gyd)** | 1 85442 488 2 | **35.00** | | |

| | |
|---|---|
| Tâl trin | **1.50** |
| Gostyngiad am swmp*** | |
| Cyfanswm | |

* Ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban – ar gael yn y Gymraeg hefyd.
** Ar gyfer Cymru a Lloegr – ar gael yn y Gymraeg hefyd.
*** Gostyngiadau swmp: 10–25 copi: **10%.** 25–99 copi: **20%.** 100+ copi: **30%.**

### Llenwch y ffurflen yn llawn

**Enw** **Teitl**

**Teitl y swydd**

**Corff**

**Cyfeiriad**

**Cod Post**

☎ **Ffacs**

**Ebost**

### Dull talu

❑ Dymunaf dalu gyda siec (yn daladwy i **The Stationery Office Ltd**)

❑ Dymunaf dalu gan ddefnyddio fy Rhif Cyfrif TSO:

❑ Dymunaf dalu drwy gerdyn credyd:

Mastercard /Visa /Amex (dilewch fel bo'n gymwys). Rhif Cyfrif:

Cod Diogelwch y Cerdyn

(Rhaid cynnwys hwn i brosesu eich archeb. Ar gardiau Mastercard neu Visa y 3 digid olaf ar y stribed llofnodi ar gefn y cerdyn fydd hwn. Ar gardiau American Express dangosir hwn fel rhif 4 digid ar flaen y cerdyn.)

Dyddiad dirwyn i ben: Rhif dyroddi:

**Llofnod**

**Dyddiad**